



Cynllun Cynorthwyo Gwaed  
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood  
Support Scheme

# CYLCHLYTHYR WIBSS

## TÎM WIBSS

Gellir cysylltu â thîm WIBSS ar **02920 902280**. Pwyswch 1 i siarad gyda'r Tîm Cyllid neu 2 i siarad gyda'r Tîm Cymorth Hawliau Lles neu'r Tîm Seicoleg a Lles neu fel arall, gallwch anfon e-bost at: [WIBSS@wales.nhs.uk](mailto:WIBSS@wales.nhs.uk)

I siarad gyda'r Tîm Seicoleg a Lles, anfonwch e-bost at: [wibss.wellbeingsservice@wales.nhs.uk](mailto:wibss.wellbeingsservice@wales.nhs.uk).

Os ydych chi angen cael mynediad at unrhyw rai o'n gwasanaethau yn ystod y cyfnod anodd hwn, cysylltwch drwy ffonio neu anfon e-bost at y manylion isod. Oherwydd y sefyllfa bresennol, mae'r cylchlythyr hwn yn mynd i ganolbwyntio ar ailadrodd cyngor y llywodraeth sy'n ymwneud ag anawsterau ariannol yn ymwneud â Covid-19.

**Cyn darllen y cyngor hwn, os ydych chi eisoes yn hawlio budd-dal gwaddol, sy'n cynnwys Budd-dal Tai, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm (ESA), Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm (JSA), Credydau Treth Plant, Credydau Treth Gwaith (WTC) a Chymhorthdal Incwm, ceisiwch gael cyngor unigol cyn hawlio Credyd Cynhwysol, gan y byddai hyn yn golygu newid parhaol i Gredyd Cynhwysol ac yn y tymor hir, efallai y byddwch yn waeth eich byd.**

## Cyngor ar Hawliau Lles mewn perthynas â Covid-19

Er bod llawer ohonoch eisoes wedi defnyddio'r gwasanaeth cymorth sydd yn cael ei ddarparu gan y tîm Hawliau Lles, roeddem eisiau eich atgoffa chi ein bod ni yma i helpu, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd hwn.

**Os ydych chi wedi cael eich effeithio'n ariannol gan y sefyllfa Covid-19 presennol, yna dyma ychydig o wybodaeth a allai fod o gymorth i chi:**

### Tâl Salwch Statudol (SIP)

Gallwch gael Tâl Salwch Statudol o £94.25 yr wythnos os ydych chi'n rhy sâl i weithio. Mae'n cael ei dalu gan eich cyflogwr am hyd at 28 wythnos.

- Os ydych chi'n hunanynysu/dilyn cyngor y Llywodraeth oherwydd COVID-19: O 13 Mawrth, gallwch nawr hawlio Tâl Salwch Statudol. Mae hyn yn cynnwys unigolion sy'n gofalu am bobl sy'n hunanynysu yn yr un aelwyd ac sydd felly, wedi cael eu cynghori i roi eu hunain mewn cwarantîn. I wirio eich hawl i gael tâl salwch, dylech siarad â'ch cyflogwr, a mynd i <https://www.gov.uk/statutory-sick-pay> i gael rhagor o wybodaeth.
- Mae'r Llywodraeth yn ceisio cyflwyno deddf i'r Tâl Salwch Statudol gael ei dalu o'r diwrnod cyntaf, yn hytrach na'r pedwerydd diwrnod o'ch absenoldeb o'r gwaith, os ydych yn absennol oherwydd salwch neu angen hunanynysu oherwydd COVID-19. Bydd y mesur hwn yn berthnasol, yn ôl-weithredol, o 13 Mawrth.

- O 20 Mawrth, gellir cael nodiadau salwch/ffitrwydd, neu mewn perthynas â nodiadau ynysu COVID-19, drwy GIG 111 ar-lein.

## Cynllun Cadw Swyddi Staff

Cynllun dros dro ydy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod Coronafeirws, sy'n agored i holl gyflogwyr y DU am o leiaf tri mis, yn dechrau o 1 Mawrth 2020. Mae wedi'i gynllunio i gefnogi cyflogwyr y mae eu gweithrediadau wedi cael eu heffeithio'n ddifrifol gan Covid-19, er mwyn osgoi diswyddiadau.

Gall cyflogwyr ddefnyddio porth ar-lein (y disgwylir iddo fod yn weithredol erbyn diwedd Ebrill 2020) i hawlio am hyd at 80% o gostau cyflog misol arferol staff sydd wedi cael caniatâd i fod yn absennol (staff ar absenoldeb), o hyd at £2,500 y mis, yn ychwanegol at y cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwr cysylltiedig, a'r cyfraniadau isafswm cofrestru awtomatig ar y cyflog hwnnw. Gall cyflogwyr ddefnyddio'r cynllun hwn unrhyw bryd yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r cynllun ar agor i holl gyflogwyr y DU a oedd wedi creu a chychwyn cynllun cyflogres PAYE ar 28 Chwefror 2020.

Mae'r canllaw newydd ar y cynllun yn cael ei ysgrifennu isod:

- Mae cyflogwyr yn gymwys i gael y cymhorthdal ar gyfer aelod penodol o staff, dim ond os nad yw'r aelod o staff yn gwneud gwaith ar gyfer, neu ar ran y sefydliad.
- Os yw aelod o staff yn gweithio, ond yn gweithio llai o oriau, neu am lai o dâl, ni fyddant yn gymwys i fod yn rhan o'r cynllun;
- Ni all staff sydd yn cael eu rhoi ar absenoldeb di-dâl cyn 28 Chwefror 2020, gael caniatâd i fod yn absennol.
- Mae angen i gyflogwyr ysgrifennu at eu staff i gadarnhau eu bod nhw wedi cael caniatâd i fod yn absennol, a chadw cofnod er mwyn gallu hawlio cymhorthdal.
- Ar gyfer staff sydd â chyflog sy'n amrywio, neu sydd newydd ddechrau gweithio, mae cyfrifo tâl yn amrywio yn ôl pa mor hir maen nhw wedi cael eu cyflogi, gan gynnwys drwy gyfartalu dros y flwyddyn dreth 2019/2020 neu ar sail cyfrifiadau pro-rata.
- Dylai staff sydd ar absenoldeb salwch neu sy'n hunanyysu gael tâl salwch statudol, ond gallant gael hawl awtomatig i gael caniatâd i fod yn absennol ar ôl hyn.
- Gall staff sy'n cysgodi yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd gael caniatâd i fod yn absennol.
- Gall staff sydd â mwy nag un cyflogwr gael caniatâd i fod yn absennol ar gyfer pob swydd, ac mae'r cap cyflog 80 y cant yn berthnasol i bob cyflogwr yn unigol.
- Gall aelod o staff sydd wedi cael caniatâd i fod yn absennol gymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol neu hyfforddiant, ar yr amod nad ydynt yn darparu gwasanaethau, neu'n cynhyrchu refeniw ar gyfer, neu ar ran y sefydliad.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar y ddolen hon: <https://www.gov.uk/guidance/claim-for-wage-costs-through-the-coronavirus-job-retention-scheme>

## Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth

Bydd y cynllun hwn yn caniatáu i'r hunangyflogedig hawlio grant trethadwy gwerth 80% o'u helw masnachu hyd at uchafswm o £2,500 y mis am y 3 mis nesaf. Efallai y caiff hwn ei ymestyn os bydd angen.

Bydd HMRC yn cysylltu â chi os ydych chi'n gymwys, ac yn eich gwahodd i wneud cais ar-lein. Gallwch wneud cais os ydych chi'n unigolyn hunangyflogedig neu'n aelod o bartneriaeth a'ch bod chi:

- wedi cyflwyno eich ffurflen dreth Hunanasesu Treth Incwm ar gyfer y flwyddyn dreth 2018-19
- wedi masnachu yn y flwyddyn dreth 2019-20
- yn masnachu pan fyddwch chi'n gwneud cais, neu'n cael eich eithrio ar gyfer COVID-19
- yn bwriadu parhau i fasnachu yn y flwyddyn dreth 2020-21
- wedi colli elw masnachu/gweithio mewn partneriaeth oherwydd COVID-19

**Os nad ydych chi wedi cyflwyno eich ffurflen dreth Hunanasesu Treth Incwm ar gyfer y flwyddyn dreth 2018-19, rhaid i chi wneud hyn erbyn 23 Ebrill 2020.**

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun hwn, ewch i'r ddolen hon: <https://www.gov.uk/guidance/claim-a-grant-through-the-coronavirus-covid-19-self-employment-income-support-scheme>

## Hunangyflogedig

- **Os nad ydych chi'n gymwys i gael Tâl Salwch Statudol** – er enghraifft os ydych chi'n hunangyflogedig neu'n ennill llai na'r terfyn enillion isaf o £118 yr wythnos – ac mae gennych chi COVID-19 neu'ch bod chi'n cael eich cynghori i hunanynysu, mae'n haws ichi wneud cais am Credyd Cynhwysol neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth dull newydd. I gael rhagor o wybodaeth am sut i hawlio, ewch i <https://www.gov.uk/universal-credit> neu <https://www.gov.uk/guidance/new-style-employment-and-support-allowance>.
- Os bydd angen i chi hawlio Credyd Cynhwysol ond bod gennych chi-COVID-19 neu'ch bod chi'n hunanynysu, byddwch yn awr yn gallu hawlio a chael gafael ar flaendaliadau ymlaen llaw, heb orfod mynd i Ganolfan Byd Gwaith. Fodd bynnag, o 24 Mawrth ymlaen, bydd nifer yr ymwelwyr mewn canolfannau gwaith yn cael eu lleihau i bawb heblaw am yr achosion bregus ac unrhyw fusnes perthnasol arall na ellir ei gwblhau drwy unrhyw sianel arall er mwyn talu ar amser. Y tu mewn i ganolfannau gwaith, bydd mesurau ymbellhau cymdeithasol llym ar waith.
- Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bod yn cynyddu'r lwfans safonol o fewn Credyd Cynhwysol hefyd, a'r elfen sylfaenol mewn Credyd Treth Gwaith am flwyddyn (o 6 Ebrill). Bydd y ddau yn cynyddu £20 yr wythnos yn ychwanegol at y cynnydd blynyddol sydd wedi'i gynllunio, ar gyfer yr holl gwsmeriaid Credyd Cynhwysol newydd a phresennol, a'r cwsmeriaid Credyd Treth Gwaith presennol.

## Morgais a Rhent

Os ydych chi'n dioddef anawsterau ariannol wrth dalu eich ad-daliadau morgais oherwydd COVID-19, efallai y byddwch yn gymwys i gael gwyliau morgais neu rent am 3 mis.

- Mae'r Llywodraeth wedi cytuno â benthycwyr morgeisi y byddant yn cynnig gwyliau ad-dalu o 3 mis i bobl sy'n dioddef anawsterau ariannol oherwydd COVID-19. Bydd hyn yn berthnasol hefyd i landlordiaid lle mae eu tenantiaid yn wynebu anawsterau ariannol yn sgil COVID-19.
- Gellir cynnig gwyliau talu i gwsmeriaid sydd heb golli taliadau ac sydd ddim mewn ôl-ddyledion.
- Dylai cwsmeriaid sy'n pryderu am eu sefyllfa ariannol bresennol gysylltu â'u benthyciwr ar y cyfle cyntaf posibl, i drafod a yw hyn yn opsiwn addas iddynt.
- Bydd deddfwriaeth frys yn cael ei rhoi ar waith, i sicrhau na fydd landlordiaid yn gallu dechrau prosesau i droi tenantiaid allan am gyfnod o 3 mis o leiaf. Mae hyn yn berthnasol i rentwyr preifat a chymdeithasol.
- Os ydych chi'n cael trafferth gyda chostau rhent oherwydd Covid-19, dylech wirio eich cymhwyster ar gyfer Credyd Cynhwysol. Bydd cymorth ar gyfer costau rhent yn cael ei dalu drwy Lwfans Tai Lleol Credyd Cynhwysol. Bydd Lwfans Tai Lleol Credyd Cynhwysol yn talu am o leiaf 30% o renti'r farchnad ym mhob ardal (o fis Ebrill). Bydd hyn yn berthnasol i bob rhentwyr preifat sy'n gwsmeriaid elfen tai Credyd Cynhwysol newydd neu bresennol, ac i gwsmeriaid Budd-dal Tai presennol.
- Os ydych chi'n cael trafferth gyda'ch bil dreth gyngor oherwydd y sefyllfa bresennol, cysylltwch â'ch awdurdod lleol.

### **Benthyciadau personol a cherdyn credyd**

Os oes angen help arnoch chi gyda'r materion hyn, byddai angen i chi gysylltu â chwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Efallai y bydd Step Change yn gallu helpu- <https://www.stepchange.org/>

Os ydych chi'n cael trafferth talu benthyciadau personol neu filiau cerdyn credyd yn ôl o ganlyniad i COVID-19:

- Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi galw ar fenthycwyr i ddefnyddio hyblygrwydd sydd wedi'i adeiladu o fewn eu rheolau i gynorthwyo defnyddwyr, ac ystyried amgylchiadau unigol cwsmeriaid. Mae llawer o fenthycwyr mawr eisoes wedi gwneud datganiadau i'r perwyl hwn.
- Os ydych chi'n cael anawsterau oherwydd COVID-19, dylech siarad â'ch benthyciwr.
- Os byddwch yn cytuno ar wyliau talu gyda'ch benthyciwr, dylent gofnodi'r rhain yn y fath fodd na fydd yn effeithio ar eich sgôr credyd.

**Gellir dod o hyd i rywfaint o'r wybodaeth hon a mwy ar y dolenni isod o wefan y Llywodraeth.**

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/873676/Covid-19\\_fact\\_sheet\\_18\\_March.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/873676/Covid-19_fact_sheet_18_March.pdf)

<https://www.gov.uk/government/publications/guidance-to-employers-and-businesses-about-covid-19/covid-19-guidance-for-employees>